**LC1298**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Trwyddedu a Rheoli Tai Amlfeddiannaeth a Thai Eraill (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2006

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaethau parthed amryw o faterion sy'n ymwneud â darpariaethau'r Ddeddf Tai ("y Ddeddf"). Gwneir darpariaeth parthed: trwyddedu a rheoli tai amlfeddiannaeth a thai eraill; amgylchiadau pan fo personau i gael eu hystyried yn ffurfio aelwyd unigol; pan fydd gweithwyr mudol, gweithwyr tymhorol a cheiswyr lloches i gael eu trin fel petaent yn meddiannu mangre benodol fel eu hunig breswylfa neu eu prif breswylfa; disgrifiad o adeiladau nad ydynt yn HMOs at ddibenion y Ddeddf; ceisiadau am drwyddedau o dan Adran 2 neu 3 o'r Ddeddf; y safonau sydd i'w cymhwyso wrth benderfynu ar addasrwydd ty ar gyfer amlfeddiannaeth; dynodiad ardaloedd o dan Adran 2 neu 3 o'r Ddeddf a'r wybodaeth i'w chynnwys yn y cofrestrau sy'n cael eu dal gan awdurdodau tai lleol o drwyddedau a roddir o dan Adran 2 neu 3 o'r Ddeddf.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwynt canlynol o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae anghysondeb rhwng testunau Cymraeg a Saesneg Atodlen 2. Mae testun Saesneg paragraff 3(d) yn cyfeirio at dy y mae deilydd arfaethedig y drwydded neu'r rheolwr "yn ei berchen neu yn ei reoli neu wedi ei berchen neu wedi ei reoli". Nid yw'r testun Cymraeg cyfatebol (paragraff 3(ch) y testun

Cymraeg) yn ymdrin â'r elfen reolaethol o'r wybodaeth y gofynnir amdano yn y paragraff hwn. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Gellir cywiro'r anghysondeb hwn trwy Femorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Mae system rifo testun Cymraeg rheoliad 7(7) et seq wedi mynd o chwith o ganlyniad i wall yn y feddalwedd ddrafftio. Gellir cywiro hyn wrth gyhoeddi'r Rheoliadau.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 13 Mehefin 2006